**Arweinlyfr Mannau Gwyrdd**

**Atodiad 1: Cyd-destun Polisi**

**1 Cyfeiriadau uniongyrchol at fannau gwyrdd trefol mewn dogfennau polisi yng Nghymru**

**Strategaeth amgylcheddol ar gyfer Cymru 2006**
http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/060517environmentstrategycy.pdf

Strategaeth tymor hir Llywodraeth Cymru ar gyfer amgylchedd Cymru, yn gosod y cyfeiriad strategol o 2006-2026.

Dengys y gall amgylcheddau o ansawdd gwael, gyda diffyg parciau a mannau gwyrdd gael effaith andwyol ar ansawdd ein bywyd, ac ar ein hiechyd a'n lles.

Canlyniad 27: Mynediad hawdd a theg i ddigon o fannau gwyrdd o safon uchel.

Mae yna ddau ddangosydd llwyddiant (Atodiad B):
- Canran y bobl sy'n dweud y gallent fynd i barc yn hawdd yn yr arolwg Byw yng Nghymru
- Dangosydd ychwanegol i'w ddatblygu wedi rhoi arweinlyfr mannau gwyrdd CCGC ar waith (ddim wedi'i ddatblygu eto)

**Cynllun Gweithredu ' r Strategaeth Amgylcheddol 2008-11**
http://wales.gov.uk/desh/publications/enviroprotect/environmentstrategy/environmentactionplan/esap0811w.pdf?lang=cy

Gweithredu 13: Erbyn diwedd Mawrth 2010 – pob awdurdod lleol i fod wedi cwblhau asesiad mannau gwyrdd gan ddefnyddio arweinlyfr CCGC a chymorth grant gan CCGC.

**Dringo'n Uwch : Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** (Ionawr 2005)
http://wales.gov.uk/depc/publications/cultureandsport/sport/climbinghigher/strategy/climbinghigherw.pdf?lang=cy

Mae hon yn gosod allan y strategaeth hirdymor ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Y nod yw cael Cymru egniol, iach a chynhwysol.

Targed 12: -Ni ddylai unrhyw un fyw mwy na thaith gerdded o chwe munud (300m) o'u man glas naturiol agosaf.

**Dringo'n Uwch – Camau Nesaf 2006**
http://wales.gov.uk/docs/drah/publications/20100201nextstepsw.pdf

Cynllun gweithredu chwaraeon a gweithgarwch corfforol 2006-2009

Datblygu llefydd addas i chwarae ynddynt: Datblygu lleoliadau gweithgarwch corfforol ar garreg y drws yn cynnwys gwell mynediad i'r awyr agored lleol ar gyfer 'ymarfer gwyrdd'

**Dangosyddion Ansawdd Bywyd**
http://dissemination.dataunitwales.gov.uk/webview/index.jsp?language=en

Defnyddir dangosyddion Ansawdd Bywyd ar gyfer cynlluniau cymunedol a gallant wella'r ffordd y defnyddir data i hybu gwelliant. Mae'r dangosyddion hyn hefyd yn cynnig gwybodaeth gyd-destunol i hwyluso defnyddio data'n effeithiol. Ers 2002 mae Uned Ddata Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu a rhannu dangosyddion Ansawdd Bywyd i awdurdodau lleol Cymru. Rhennir y dangosyddion i themâu:

- Lles Economaidd;
- Lles Cymdeithasol; a
- Lles Amgylcheddol.

**QoLW42**: Arwynebedd parciau a mannau gwyrdd fesul 1000 o'r boblogaeth.

Cytunwyd ar y dangosydd hwn ond nid yw wedi'i gyhoeddi eto (2011).

**2 Cyfeiriadau anuniongyrchol at fannau gwyrdd trefol mewn dogfennau polisi yng Nghymru**

**Datganiad Ysgrifenedig - Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol 'Cymru Fyw'**
John Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy 15 Mehefin 2011
http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2011/110615nat/?skip=1&lang=cy

Diben y datganiad hwn oedd diweddaru'r Cynulliad Cenedlaethol ar waith Llywodraeth Cymru ar yr amgylchedd naturiol. Mae'n amlinellu eu hymdriniaeth o'r maes pwnc hwn. Mae'n cynnwys y frawddeg ganlynol:

"Rwyf hefyd am i ni edrych yn benodol ar rai o'n hamgylcheddau trefol sydd o dan bwysau mawr, er mwyn i ni allu sicrhau ein bod yn darparu ansawdd bywyd gwell i drigolion yr ardaloedd hynny trwy ystyried pob agwedd ar yr amgylchedd lleol."

**Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru, 2004**
http://wales.gov.uk/location/strategy/spatial/documents/2004wsp/?skip=1&lang=cy

Dogfen sy'n amlinellu polisïau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru mewn cyd-destun gofodol. Nid oes sôn uniongyrchol nac anuniongyrchol am fannau gwyrdd trefol.

**Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008**

Yn cydymffurfio'r Cynllun Gofodol â 'Cymru'n Un'.

http://wales.gov.uk/location/strategy/spatial/documents/wsp2008update/?lang=cy

Gwerthfawrogi'n Hamgylchedd: Heriau
- Hybu bywyd gwyllt a bioamrywiaeth er eu mwyn eu hunain ac er mwynhad pobl drwy gynyddu swm ac ansawdd y safleoedd natur drwy holl Ardaloedd y Cynllun Gofodol ac yn arbennig mewn ardaloedd trefol.

**Polisi Cynllunio Cymru 2002**

Pwrpas Polisi Cynllunio Cymru yw gosod y cyd-destun ar gyfer polisi cynllunio defnydd tir cynaliadwy. O fewn y polisi hwnnw y caiff Cynlluniau Datblygu Unedol statudol awdurdodau cynllunio lleol eu paratoi ac y gwneir penderfyniadau rheoli datblygu ar geisiadau ac apeliadau unigol.

Caiff Polisi Cynllunio Cymru ei ategu gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (TAN) ar faterion penodol.

**TAN 16: Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored**
http://wales.gov.uk/docs/desh/policy/090206tan16cy.pdf

Nod y TAN hwn yw integreiddio ymhellach y cysylltiadau rhwng iechyd a lles, chwaraeon a gweithgarwch hamdden a datblygu cynaliadwy yng Nghymru drwy ddatblygu canllawiau cynllunio ar ddefnydd tir.

Mae Adran 2 yn gofyn am ddarparu asesiad 'man agored'.
Ffynonellau Gwybodaeth Sylfaenol
Para. 2.18: Hwyrach y bydd awdurdodau lleol yn dymuno defnyddio'r rhain (arweinlyfr CCGC) ac addasu'r darpariaethau hyn a'u cymhwyso i'w hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain.

Mae Atodiad A yn rhoi diffiniad o fan agored
Mae Atodiad B yn dangos teipoleg mannau agored

**Cymru Un Blaned: Cynllun Datblygu Cynaliadwy Newydd i Gymru, 2009**
http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/publications/onewalesoneplanet/?skip=1&lang=cy

Mae'r Cynllun yn gosod allan weledigaeth newydd am Gymru gynaliadwy (yn lle Cynllun Datblygu Cynaliadwy 2006).

Pennod 7: Cymdeithas Gynaliadwy: Ansawdd bywyd lleol
Bydd mwy o fynediad at fannau gwyrdd yn enwedig yn y cymunedau tlotaf.

**Cynllun Tywydd Poeth i Gymru 2009: Fframwaith ar gyfer Paratoi ac Ymateb**
http://wales.gov.uk/docs/phhs/publications/110524heatwavecy.pdf

Ei nod yw gwella'r gallu i ymateb mewn tywydd poeth iawn a lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwres eithafol.

Amcanion:
Hybu a hwyluso cynllunio aml-asiantaeth hirdymor er mwyn addasu i, a lleihau effaith, y newid yn yr hinsawdd, yn cynnwys 'gwneud yr amgylchedd adeiledig yn fwy gwyrdd'…….

Ystyriaethau cynllunio hirdymor: Dylai rhanddeiliaid ystyried y mesurau cynllunio hirdymor canlynol a fyddai'n helpu i leihau effaith y newid yn yr hinsawdd: Gwneud yr amgylchedd adeiledig yn fwy gwyrdd – mae coed, planhigion a mannau gwyrdd yn gweithredu fel systemau tymheru naturiol, yn rhoi cysgod ac yn amsugno carbon deuocsid. Maent hefyd yn helpu i leihau effaith llifogydd.

**Chwarae yng Nghymru,** Hydref 2002
Polisi chwarae Llywodraeth Cymru, yn dangos cydnabyddiaeth o bwysigrwydd hanfodol chwarae, ac ymrwymiad y dylai cymdeithas chwilio am bob cyfle i'w gefnogi.

Nid oes cyfeiriad uniongyrchol neu anuniongyrchol i fannau gwyrdd.

**Cynllun Cyflawni'r Polisi Chwarae,** Chwefror 2006
http://wales.gov.uk/dcells/publications/policy_strategy_and_planning/early-wales/playpolicy/implementationplanw.pdf?lang=cy

Mae’r cynllun gweithredu hwn yn amlinellu sut bydd yr egwyddorion yn y polisi chwarae yn cael eu rhoi ar waith.

Adran 4: Chwarae yn y Gymuned

Argymhelliad 16: “Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol (ac eraill) yn cael y dewis cyntaf ar unrhyw dir cyhoeddus addas sy’n dod ar werth, er mwyn i bocedi ac ardaloedd o leoedd agored, tir gwastraff a choetir, yn enwedig o fewn ardaloedd dinesig lle mae plant a phobl ifanc eisoes yn chwarae, gael eu hamddiffyn.